Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS



DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON

(Cyfrifon grŵp)

2025-26

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26

DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL

CYFLWYNIAD

Mae Datganiad Cryno o Gyfrifon 2025-26 yn nodi prif weithgarwch refeniw a chyfalaf Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP), a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). At ddibenion y datganiad cryno hwn, mae rhai trafodion sy'n ymwneud â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u heithrio er mwyn symleiddio'r cyflwyniad. Nid oes gan drafodion o'r fath unrhyw effaith ar gronfa'r heddlu na'r swm a godir ar y rheini sy'n talu'r dreth gyngor.

GWARIANT REFENIW

Gosododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllideb refeniw o £153.3 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, sy'n cynrychioli cynnydd o 6.5%. Roedd hyn yn cynnwys defnydd o gronfeydd wrth gefn o £1.9 miliwn, yn ogystal â mesurau lleihau costau gwerth cyfanswm o £2.8 miliwn (1.8%). Roedd hyn yn dal i adael cynnydd yn y dreth gyngor ym Mand D o 8.6%.

Roedd angen i gyllideb 2025-26 ymgorffori effaith y cynnydd cyflog o 4.75% a ddyfarnwyd ym mis Medi 2024, ochr yn ochr â chynnydd sylweddol yn Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Roedd yr heddlu'n wynebu amrywiaeth o bwysau ariannol eraill gyda threfniadau cyllido grant penodol yn amodol ar gynnal niferoedd y gweithlu cyffredinol o swyddogion a swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu, tra hefyd yn ychwanegu 33 o swyddogion at swyddogaethau plismona bro.

Roedd gwariant Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn y gyllideb o £0.1 miliwn a arweiniodd at lai o symud nag a ragwelwyd yn y cronfeydd arian wrth gefn. Roedd hyn yn adlewyrchu gwariant is gan yr heddlu a phartneriaid.

Roedd sefyllfa alldro refeniw'r heddlu yn gadarnhaol iawn gyda thanwariant o £2.7 miliwn yn gyffredinol, cyn addasu ar gyfer trosglwyddiadau wrth gefn cyllideb a glustnodwyd ar gyfer pwysau cost untro sy'n codi yn 2026-27 yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Roedd sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn £20.3 miliwn, sef gostyngiad o £1.6 miliwn ers 2024-25.

Mae ffigur y cronfeydd wrth gefn yn ymgorffori swm o £7.4 miliwn i gefnogi ymrwymiadau cyllideb cyfalaf yn y dyfodol, a chronfa gyffredinol o £5.5 miliwn.

GWARIANT CYFALAF

Dyma wariant yr eir iddo ar gaffael, uwchraddio neu adeiladu asedau sydd â gwerth hirdymor i'r heddlu, megis eiddo, cerbydau a thechnoleg gwybodaeth (TG). Rhoddir cyfrif am wariant cyfalaf ar wahân i'r gwariant refeniw o ddydd i ddydd.

£15.4 miliwn oedd gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod, ac fe'i hariannwyd drwy gyfraniadau refeniw, derbyniadau cyfalaf, cronfeydd cyfalaf, benthyca a thrwy hunangyllido.

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ATEBOLRWYDD ALLANOL

Cyhoeddir Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae hyn yn nodi manylion ynghylch sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llywodraethu eu materion. Mae'r datganiad yn ddogfen statudol sy'n ceisio cynorthwyo tryloywder a dealltwriaeth i'r darllenydd, gan ddangos yn glir ble mae trefniadau'n gyson a ble maent yn wahanol rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Mae'r datganiad yn cynnwys adolygiad blynyddol o ddigonolrwydd y trefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd ar y systemau rheolaeth fewnol.

Bob blwyddyn, mae cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol annibynnol. Mae'r cyfrifon ar gyfer 2025-26 wedi cael eu harchwilio ac mae'r archwilwyr wedi rhoi barn ddiamod. Mae hyn yn golygu bod y cyfrifon yn cyflwyno sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed-Powys yn gywir.

Gellir dod o hyd i'r Datganiad o Gyfrifon llawn a gyhoeddwyd yma:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS


DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26

COST GWASANAETHAU'R HEDDLU

GWARIANT REFENIW

Mae'r tabl isod yn dangos ar beth y gwariodd Heddlu Dyfed-Powys arian yn 2025-26 ac o ble y daeth yr arian hwnnw:

	2025-26 £m
Costau swyddfa a chomisiynu	3.2
Cyflogau a lwfansau'r heddlu	93.7
Cyflogau a lwfansau staff yr heddlu	45.5
Costau pensiwn	1.8
Costau adeiladau	5.9
Recriwtio, yswiriant a hyfforddiant	1.7
Dadansoddi ffonau a gwaith fforensig	3.4
Taliadau cydweithio ac asiantaeth	5.2
Costau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau	19.1
Trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn	-1.5
Gwariant gros	**178.0**
Llai o grantiau ac incwm	-24.7
Gwariant net	**153.3**
Wedi'i ariannu gan:	
Y dreth gyngor	86.4
Grant yr heddlu	58.8
Grant Cynnal Refeniw	7.9
Trethi annomestig	0.2
Cyfanswm Cyllid	**153.3**



Mae'r £19.1 miliwn o 'gostau eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau' yn cynnwys gwariant yr aed iddo ar gyllido cyfalaf (£4.7 miliwn), technoleg gwybodaeth (£6.3 miliwn), trafnidiaeth (£2.3 miliwn), offer (£1.2 miliwn), gwasanaethau eraill sydd wedi'u llogi a'u contractio (1.2 miliwn), costau cyfreithiol (£0.2 miliwn), costau argraffu, swyddfa a lifrau (£0.5 miliwn), a chynhaliaeth a threuliau eraill (£2.7 miliwn).

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26


COST GWASANAETHAU'R HEDDLU

GWARIANT CYFALAF

Mae'r tablau isod yn dangos ar beth y gwariodd Heddlu Dyfed-Powys arian yn 2025-26 ac o ble y daeth yr arian hwnnw:

Gwariant wedi'i gyfalafu	2025-26 £m
Rhaglen ystadau	9.7
Cerbydau	2.2
Prosiectau mawr technoleg gwybodaeth (TG)	0.3
Amnewid dyfeisiau TGCh dro ar ôl tro	2.4
Amnewid offer cyfalaf eraill	0.6
Prosiectau ariannu refeniw uniongyrchol/hunan ariannu refeniw	0.2
Cyfanswm y gwariant	**15.4**

Ariannu	2025-26 £m
Cyfraniadau refeniw	-2.9
Derbyniadau cyfalaf	-1.0
Defnyddio cronfeydd cyfalaf wrth gefn	-2.2
Benthyca	-8.8
Prosiectau ariannu refeniw uniongyrchol/hunan ariannu refeniw	-0.5
Cyfanswm ariannu	**-15.4**



COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26

COST GWASANAETHAU'R HEDDLU

GWARIANT CYFALAF (parhad)

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gosododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllideb wreiddiol o £28.2 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Gostyngwyd y gyllideb hon i £17.6 miliwn ym mis Chwefror 2026 oherwydd oedi mewn perthynas â rhai cynlluniau mawr.

Diweddarwyd y rhaglen gyfalaf fel rhan o'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn gynllun 10 mlynedd sy'n adlewyrchu costau amnewid asedau yn lle hen rai a gwella asedau sy'n cwmpasu ystadau, fflyd a TG, wedi'i gysylltu â strategaethau hirdymor a rhaglenni amnewid adnoddau yn lle hen rai.

Roedd y sefyllfa ddiwedd blwyddyn ar gyfer cyfalaf yn gyffredinol yn £2.2 miliwn o fewn y gyllideb ddiwygiedig o £17.6 miliwn yn 2025-26. Mae llithriad mewn gwariant o £2.2 miliwn wedi golygu nad oes angen i'r Comisiynydd fenthyca cymaint ag a ragwelwyd. Mae'r Comisiynydd wedi cymeradwyo llithriad o £2.0 miliwn i'w gario ymlaen i gefnogi'r cynlluniau cyfalaf sy'n parhau i 2026/27. Mae hyn yn cynnwys £1.0 miliwn tuag at brosiect Maes Tanio'r Tri Heddlu, £0.3 miliwn tuag at brosiectau ystadau bach eraill, £0.2 miliwn tuag at gerbydau a £0.5 miliwn tuag at ailosod teledu cylch cyfyng a phrosiectau TGCh eraill.

LLIF ARIAN PAROD

Dyma oedd yr arian a symudwyd i mewn ac allan o gyfrifon banc yr heddlu yn ystod y flwyddyn:

	2025-26 £m
Cyfrifon cyfredol banc ar 31 Mawrth 2025	5.5
Arian parod yn y banc	356.2
Arian parod a dynnir o'r banc	-356.6
Cyfrifon banc a chyfrifon cyfredol ar 31 Mawrth 2026	**5.1**

MANTOLEN

Mae'r tabl isod yn grynodeb o fantolen Heddlu Dyfed-Powys ar 31 Mawrth 2026 ac yn dangos yr hyn sy'n eiddo i Heddlu Dyfed-Powys a'r arian y mae arnynt i eraill:

	2025-26 £m
Asedau sefydlog ac asedau hirdymor eraill	122.5
Asedau a gedwir i'w gwerthu	0.2
Stoc	0.7
Arian parod yn y banc	5.1
Buddsoddiadau tymor byr	2.1
Sy'n cyfateb i arian parod (buddsoddiadau mynediad ar unwaith)	3.0
Dyledwyr (arian sy'n ddyledus i Heddlu Dyfed-Powys)	23.2
Credydwyr (arian sy'n ddyledus gan Heddlu Dyfed-Powys)	-29.7
Symiau a neilltuwyd ar gyfer setliadau yn y dyfodol	-2.8
Benthyca i ariannu asedau sefydlog	-25.2
Llai o gronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio	-78.8
Asedau net	**20.3**
Wedi'i ariannu gan:	
Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio	-20.3
Cyfanswm gwerth net	**-20.3**

Mae'r fantolen gryno hon yn wahanol i'r un sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon oherwydd ei bod yn eithrio'r addasiadau a wnaed mewn perthynas â Rhwymedigaethau Pensiwn FRS17 a'r Gronfa Bensiynau wrth gefn negyddol gysylltiedig na ellir ei defnyddio. Mae ffigur y cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio o £78.8 miliwn yn cynnwys addasiadau technegol a wneir i'r cyfrifon, megis addasiadau a wneir i asedau ar gyfer dibrisiant ac ailbrisiadau, ac addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau cronnol a chyfran deg cydweithio. Nid yw'r cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio hyn yn gronfeydd wrth gefn a gefnogwyd gan arian parod.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26

BUDDSODDIADAU

Yn ystod y flwyddyn, diogelwch cyfalaf oedd prif amcan buddsoddi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cynhaliwyd hyn drwy ddilyn y polisi parti i gontract a nodir yn y datganiad o bolisi rheoli'r trysorlys ar gyfer 2025-26 ac arweiniodd at fuddsoddiadau dim ond gyda sefydliadau a ddiffinnir fel rhai o "ansawdd credyd uchel", sef y rheini â sgôr credyd hirdymor o (A-) neu uwch.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys £3 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cronfeydd marchnad arian, sef cyfrifon y gellir cael mynediad iddynt ar unwaith. Oherwydd bod y buddsoddiadau hyn yn hawdd eu trosi'n arian parod, cânt eu dosbarthu fel cronfeydd sy'n cyfateb i arian parod ar y fantolen yn hytrach na buddsoddiadau.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa ddiwedd y flwyddyn ar gyfer cronfeydd sy'n cyfateb i arian parod a buddsoddiadau. Nid oedd unrhyw fuddsoddiadau hirdymor yn cael eu cadw ar 31 Mawrth 2026. Roedd hyn oherwydd amseriad ymrwymiadau i'r rhaglen gyfalaf, a'r prinder llif arian parod dros dro a ddeilliodd o hynny, a olygai fod balansau arian parod megis cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant yn hytrach na'u buddsoddi yn y tymor hir.

	Sy'n cyfateb i arian parod	Buddsoddiadau tymor byr	Buddsoddiadau hirdymor	Cyfanswm ar 31 Mawrth 2026
	£miliwn	£miliwn	£miliwn	£miliwn
Awdurdod lleol	0.0	0.0	0.0	0.0
Bondiau	0.0	0.0	0.0	0.0
Cronfeydd marchnad arian	3.0	0.0	0.0	3.0
Swyddfa rheoli dyledion	0.0	0.0	0.0	0.0
Banc y DU – mynediad ar unwaith	0.0	2.1	0.0	2.1
	3.0	**2.1**	**0.0**	**5.1**

BENTHYCA

Mae strategaeth fenthyca Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i fynd i'r afael â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion.

Mae cyfraddau llog wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, er bod y cynnydd hwn bellach wedi dechrau sefydlogi. Ar 31 Mawrth 2025, cyfraddau sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd oedd 5.46% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.92% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd a 5.67% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Y ffigyrau cyfwerth ar 31 Mawrth 2026 oedd 5.77%, 6.24%, a 6.08% yn y drefn honno.

Ym mis Rhagfyr 2025, roedd angen i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fynd i'r afael â phrinder llif arian parod dros dro, a gwnaed penderfyniad i allanoli rhywfaint o'n benthyca mewnol. Archwiliwyd opsiynau benthyca amrywiol, a threfnwyd benthyciad EIP cyfradd sefydlog o £10 miliwn gyda'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Benthyciad EIP cyfradd sefydlog yw pan delir y llog a'r prif swm dros gyfnod y benthyciad. Cytunwyd ar y benthyciad am gyfnod o bum mlynedd, ar gyfradd sicrwydd o 4.57%. Yn ystod mis Mawrth 2026, nodwyd gofyniad benthyca ychwanegol. Yn dilyn asesiad o'r opsiynau oedd ar gael, trefnwyd benthyciad aeddfedrwydd cyfradd sefydlog blwyddyn o hyd o £5 miliwn ar gyfradd sicrwydd o 5.32%. Benthyciad aeddfedrwydd cyfradd sefydlog yw pan delir llog yn ystod tymor y benthyciad yn unig, ac mae'r prifswm yn cael ei ad-dalu ar ddiwedd y benthyciad.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad mewn benthyca yn ystod 2025-26:

	Balans ar 1 Ebrill 2025 £m	Dyled yn aeddfedu £m	Benthyciadau newydd £m	Balans ar 31 Mawrth 2026 £m
Cyfanswm benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus	20.6	-10.4	15.0	25.2

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26

TROSOLWG GWEITHREDOL

O safbwynt yr heddlu, mae perfformiad yn erbyn amcanion allweddol yn cael ei fonitro a chyflwynir adroddiadau yn lleol ar bob lefel o fewn y sefydliad yn ogystal ag mewn digwyddiadau perfformiad wythnosol, misol a chwarterol yr heddlu a chyfarfodydd Bwrdd Plismona bob pythefnos.

Yn ystod 2025/26, cofnodwyd cyfanswm o 35,905 o droseddau, o'i gymharu â 37,939 yn 2024/25 – sy'n cynrychioli gostyngiad o 2,034 o droseddau (5.36%), fel y dangosir yn y tabl canlynol:

Troseddau a gofnodwyd yn ôl math o drosedd	2024-2025	2025-2026	Gwahaniaeth	Gwahaniaeth
	Troseddau	Troseddau	Troseddau	%
Trais yn erbyn yr unigolyn	17,958	16,771	-1,187	-6.61%
Dwyn	4,617	4,277	-340	-7.36%
Llosgi bwriadol a difrod troseddol	4,011	4,077	66	1.65%
Troseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus	3,938	3,479	-459	-11.66%
Troseddau cyffuriau	1,797	2,051	254	14.13%
Troseddau rhyw	1,756	1,658	-98	-5.58%
Bwrgleriaeth	1,601	1,350	-251	-15.68%
Troseddau amrywiol	1020	1,038	18	1.76%
Troseddau cerbyd	719	675	-44	-6.12%
Meddiant arfau	418	431	13	3.11%
Lladrad	104	98	-6	-5.77%
Cyfanswm	**37,939**	**35,905**	**-2,034**	**-5.36%**

Wrth edrych ar ffigurau'r flwyddyn, mae gwelliannau pellach wedi'u gwneud o ran cofnodi troseddau i gydymffurfio â'r newidiadau i Reolau Cyfrif y Swyddfa Gartref, ochr yn ochr â bod yn fwy rhagweithiol wrth sicrhau cydymffurfiaeth â Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau a Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref. Mae troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac aflonyddu wedi bod yn destun mwy o graffu yn genedlaethol, a adlewyrchir gan ostyngiad mewn troseddau trefn gyhoeddus. Mae'r maes gwaith hwn yn parhau i fod yn destun craffu, ac mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i sicrhau nad oes unrhyw droseddau'n cael eu hanwybyddu. Mae troseddau cyfathrebu maleisus hefyd yn parhau i gael sylw manwl i sicrhau bod y trothwy yn cael ei fodloni cyn cofnodi trosedd.

Aseiniwyd canlyniad i 35,905 o droseddau yn ystod 2025/26. Roedd 15% o'r rhain yn ganlyniadau a ddatryswyd (a elwid gynt yn 'ganlyniadau cadarnhaol': canlyniadau 1–8, ac eithrio canlyniad 5), datryswyd 4% (canlyniadau 5, 9, 10, 20, 22 – mae plismona wedi gwneud yr hyn y gall, mae digon o dystiolaeth, ond nid yw'r troseddwr yn fyw i'w erlyn, nid yw er budd y cyhoedd, neu gall llwybr dargyfeirio fynd i'r afael â'r ymddygiad). Mae gwelliannau nodedig wedi'u gwneud i gyfraddau'r canlyniadau a ddatryswyd ar gyfer troseddau rhyw (2025/26: 11%) a siop-ladrad (2025/2026: 35%).

Mae'r heddlu yn parhau i gynnal gwasanaeth teleffoni 999 effeithiol ac effeithlon. Mae galwadau 999, yn anochel, yn cael eu blaenoriaethu uwchlaw popeth arall gan eu bod yn cynrychioli ceisiadau brys am gymorth pan fo amser yn hanfodol. Derbyniwyd 67,545 o alwadau 999 yn ystod 2025/26 (cynnydd o 9.3%). Gan fyfyrio ar ddata a adroddwyd yn genedlaethol yn ystod y cyfnod 2025/26, amser aros cyfartalog galwadau i'r heddlu oedd 4.84 eiliad. O ran perfformiad yr heddlu, rhaid rhoi sylw i'r amser oedi – yr amser a gymerir i alwad gael ei throsglwyddo o gyfnewidfa BT i Ganolfan Reoli'r heddlu sydd wedi'i gynnwys yn y data hyn. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynnal cofnod perfformiad sy'n rhoi sicrwydd, yn ystod cyfnod 2025/26, bod 95.1% o alwadau 999 wedi cael eu hateb mewn llai na 10 eiliad. Mae'r Heddlu wedi cyrraedd dangosydd perfformiad allweddol 999 y Swyddfa Gartref Genedlaethol misol yn gyson, sef

bod 90% o'r holl alwadau 999 a gyflwynwyd i'r heddlu wedi'u hateb o fewn 10 eiliad, bob mis ers mis Ionawr 2025. Mae'r perfformiad hwn yn tystio i effaith gadarnhaol barhaus y system deleffoni a radio newydd a ddechreuodd weithredu ym mis Tachwedd 2024, gyda chefnogaeth staff ychwanegol.

Mae'r cyhoedd i raddau helaeth yn ystyried y gwasanaeth 101 yn sianel gyswllt ar gyfer riportio digwyddiadau nad ydynt yn rhai brys i'r heddlu (yn gyffredinol, galwadau nad ydynt yn cyfiawnhau galwad 999). Derbyniwyd 176,971 o alwadau 101 yn ystod 2025/26 (cynnydd o 2.5%). Mae'r heddlu wedi cynnal ei berfformiad wrth ateb galwadau 101, gydag amser aros cyfartalog ar gyfer 2025/26 yn 42 eiliad. Mae hwn yn welliant enfawr o'i gymharu â'r 140 eiliad a gofnodwyd ar gyfer 2024/25. O ganlyniad, mae'r gostyngiad hwn yn yr amser ateb wedi golygu bod galwyr wedi bod yn llai tebygol o adael eu galwadau wrth giwio, sydd wedi'i adlewyrchu'n gadarnhaol yn y gyfradd rhoi'r gorau i'w galwadau.

Cofnodwyd lefelau gadael ar y gwasanaeth hwn fel 8.3% ym mis Mawrth 2026. Mae'r heddlu wedi aros yn gyson o fewn dangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol cyfradd gadael galwadau o 10% ers mis Ionawr 2025. Mae hwn yn welliant enfawr o'i gymharu â'r gyfradd gadael o 33.09% a gofnodwyd ym mis Ebrill 2024.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

DATGANIAD CRYNO O GYFRIFON (cyfrifon grŵp) 2025-26

TROSOLWG GWEITHREDOL (parhad)

Mae'r cynnydd parhaus mewn perfformiad wedi'i briodoli i nifer o fesurau ystyriol a gyflwynwyd, sef gweithredu system deleffoni newydd, buddsoddiad sylweddol mewn lefelau staffio, newidiadau i'r model gweithredu presennol gan gynnwys cyflwyno rhaglen hollgymwys gyda'r bwriad o gryfhau cydnerthedd ar draws yr adran, yn ogystal â chyflwyno rota a phatrwm sifftiau newydd. Mae hyn wedi galluogi lefelau staffio ar ddyletswydd i gael eu cynyddu i'r eithaf ar unrhyw adeg yn unol â'r proffil galw.

Mae'r heddlu'n cynnig gwasanaeth cyswllt digidol 24/7 sy'n cynnwys y platfform adrodd ar-lein cartref ar-lein sengl (y gellir ei gyrchu trwy wefan yr heddlu) a chyfathrebu cyfryngau cymdeithasol dwyffordd.

Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd cyfanswm o 24,821 o ffurflenni cartref ar-lein sengl, cynnydd o 15.1% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (ffynhonnell data: Knowledge Hub). Mae'r galw hwn yn cynyddu'n barhaus ac mae ffurflenni categorïau a gwasanaethau newydd yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd. O ran amrywiol sianeli cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu drwy e-bost, mae data'n dangos, yn ystod 2025/26, y cynhaliwyd cyfanswm o 17,897 o sgyrsiau drwy gyfryngau cymdeithasol (mae'r rhain yn cynnwys negeseuon uniongyrchol a sgyrsiau ar sianeli agored) – mae hyn yn gynnydd o 7.8% o'i gymharu â 16,595 o sgyrsiau yn 2024/25. Er nad yw'n gwbl fesuradwy eto, amcangyfrifir bod cyswllt e-bost uniongyrchol tua 200 o negeseuon e-bost y dydd.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol iawn o ran y sefyllfa economaidd gyffredinol, gyda'r argyfwng costau byw a gwrthdaro a gwrthdaro parhaus pellach sy'n creu risgiau chwyddiant a chyfraddau llog pellach. Mae mesurau lleihau costau o dros £11 miliwn wedi'u cyflawni ers 2023/24 gyda £3.5 miliwn pellach wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2026/27. Mae risg yn parhau y bydd y dyfarniad cyflog ym mis Medi 2026 yn fwy na'r 3% a dybiwyd adeg gosod y gyllideb. Mae Corff Adolygu Cydnabyddiaeth Ariannol yr Heddlu yn argymell cynnydd cyflog o 3.5%, a allai gostio £0.4 miliwn ychwanegol. Yn ogystal, mae cynnydd mewn prisiau tanwydd ers mis Mawrth 2026 wedi arwain at gynnydd o tua £6,000 mewn costau tanwydd wythnosol, gan greu pwysau cost posibl pellach.

Gellir dod o hyd i'r ddogfen Cynllun Ariannol Tymor Canolig lawn ar gyfer 2026-27 yn:

- https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/

Mae gosod rhagdybiaethau chwyddiant yn y dyfodol yn anodd, gan fod pob newid canrannol o'r lefelau tybiedig yn gwneud gwahaniaeth sylweddol mewn termau ariannol. Byddai newid o 1% ym mhob rhagdybiaeth yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn arwain at ddiffyg/gwarged o £1.1 miliwn yn 2026/27, gan godi i ddiffyg/gwarged o £4.0 miliwn yn y blynyddoedd i ddod. Gyda'i gilydd, byddai angen mynd i'r afael â hyn drwy ostyngiadau costau pellach neu addasiadau i'r dreth gyngor. Mae'r cynllun yn arbennig o sensitif i amrywiadau mewn dyfarniadau cyflog, lefelau praesept a setliadau.

Cyhoeddwyd adroddiad ar ail gam adolygiad cynhwysfawr o wariant 2025 ar 11 Mehefin 2025, ac roedd yn cynnwys cyfanswm y dyraniadau plismona am dair blynedd o 2026/27. Cafodd y rhain eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Daeth cyhoeddiadau ar ddiwygio'r heddlu yn rhy hwyr i gael eu hymgorffori. Mae gwaith ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2027/28 wedi dechrau ers mis Mehefin 2025.

Mae'r Comisiynydd a'r heddlu yn wynebu nifer o ymrwymiadau a rhwymedigaethau ariannol anhysbys ac ansicr posibl yn y dyfodol, y cyfeirir atynt ymhellach yn y nodiadau Rhwymedigaethau digwyddiadol a phensiynau. Ailgychwynnodd Llywodraeth y DU yr adolygiad o'r fformiwla ariannu ym mis Mai 2021, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn symud ymlaen yn y tymor canolig ac mae'n cael ei ymgorffori mewn ystyriaethau ehangach ynghylch diwygio'r heddlu. Mae canlyniad y gwaith hwn a'r canlyniadau ariannol posibl yn parhau i fod yn risg.

Er gwaethaf y cynnydd tybiedig ym mhraesept y dreth gyngor, mae angen parhau â gofynion effeithlonrwydd a chynhyrchiant dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae ansicrwydd ynghylch cyllid grant craidd a phenodol yn y dyfodol, cymhlethdodau mewn perthynas â chostau pensiynau, diwygio'r heddlu a'r gweithlu o'i gymharu â'r dirwedd economaidd ehangach yn golygu bod yr amgylchedd ariannol yn debygol o barhau i fod yn heriol am y dyfodol hyd y gellir ei ragweld.